# PWYLLGOR APELAU

Dydd Mawrth, 13 Mawrth 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.K. Howell (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, D.C. Evans, E. Morgan, K.V. Broom and D.T. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
C. Jones, Cyfreithiwr Cynorthwyol
R. Young, Partner Busnes Arweiniol (AD)
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Committee Room 2, - Spilman St - 9.30 am - 3.23 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

No declarations of interest were received.

### 2.1. 10FED CHWEFROR 2017

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2017 gan eu bod yn gofnod cywir.**

### 2.2. 24AIN CHWEFROR 2017

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2017 gan eu bod yn gofnod cywir.**

### 2.3. 27AIN CHWEFROR 2017

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2017 gan eu bod yn gofnod cywir.**

## 3. DDIM I'W GYHOEDDI

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 na fyddai'r cyhoedd yn cael aros yn y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n datgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffiniwyd ym Mharagraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007, sef gwybodaeth a fyddai'n debygol o ddatgelu pwy yw'r unigolyn dan sylw.**

**4. YSTYRIED APEL YN ERBYN DISWYDDO - ADRAN GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddid yn datgelu gwybodaeth eithriedig a fyddai'n debygol o ddatgelu pwy yw'r unigolyn dan sylw.**

Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud ag enw'r apelydd a manylion personol eraill, sef data personol yn unol â'r diffiniad yn Adran 1 o Ddeddf Diogelu Data 1998. **Nid oedd y mater a fyddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn fater budd cyhoeddus. Byddai datgelu'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad yn annheg ac yn groes i hawl yr apelydd i gael preifatrwydd. Felly ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cynnwys yr adroddiad yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i'r apelydd a'i chynrychiolydd, ynghyd â'r Swyddog Comisiynu penodedig, ac amlinellodd y protocol y byddid yn ei ddilyn wrth wrando ar yr apêl (dosbarthwyd copïau o'r protocol ym mhecyn yr agenda.) Cyn i'r Pwyllgor ystyried yr apêl, cyfeiriodd y Rheolwr Comisiynu at dystiolaeth yr Awdurdod y manylwyd arni yn y pecyn a thynnodd ei sylw at sawl eitem o ohebiaeth nad oeddent wedi'u cynnwys yn y pecyn hwnnw ar gam. Gofynnodd a fyddai'r Pwyllgor yn caniatáu i'r dystiolaeth honno gael ei chyflwyno yn y cyfarfod. Gyda chaniatâd yr apelydd:-

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr ohebiaeth ychwanegol fel rhan o gyflwyniad yr Awdurdod, ac y byddai'r cyfarfod yn cael ei ohirio am gyfnod o 10 munud er mwyn rhoi'r cyfle i bob parti ddarllen yr ohebiaeth.**

Aeth y Pwyllgor yn ei flaen i wrando ar dystiolaeth gan y Rheolwr Comisiynu, yr apelydd a'i chynrychiolydd.

Cafodd y ddwy ochr gyfle i groesholi ynghylch y dystiolaeth a roddwyd ac i grynhoi. Ar ôl gwneud hynny, gadawodd y ddwy ochr y cyfarfod tra oedd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a'r sylwadau a gyflwynwyd.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, ynghyd â'r sylwadau a wnaed gan yr apelydd, ac ar ei rhan, a chan y Rheolwr Comisiynu:-

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r apêl a rhoi gwybod i'r apelydd, yn ysgrifenedig, am y dyfarniad llawn.**

**5. YSTYRIED APEL YN ERBYN DISWYDDO - ADRAN GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddid yn datgelu gwybodaeth eithriedig a fyddai'n debygol o ddatgelu pwy yw'r unigolyn dan sylw.**

Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud ag enw'r apelydd a manylion personol eraill, sef data personol yn unol â'r diffiniad yn Adran 1 o Ddeddf Diogelu Data 1998. **Nid oedd y mater a fyddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn fater budd cyhoeddus. Byddai datgelu'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad yn annheg ac yn groes i hawl yr apelydd i gael preifatrwydd. Felly ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cynnwys yr adroddiad yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i'r apelydd a'i chynrychiolydd, ynghyd â'r Rheolwr Comisiynu penodedig, ac amlinellodd y protocol y byddid yn ei ddilyn wrth wrando ar yr apêl (dosbarthwyd copïau o'r protocol ym mhecyn yr agenda.) Cyn i'r Pwyllgor ystyried yr apêl, cyfeiriodd y Rheolwr Comisiynu at dystiolaeth yr Awdurdod y manylwyd arni yn y pecyn a thynnodd ei sylw at sawl eitem o ohebiaeth nad oeddent wedi'u cynnwys yn y pecyn hwnnw ar gam. Gofynnodd a fyddai'r Pwyllgor yn caniatáu i'r dystiolaeth honno gael ei chyflwyno yn y cyfarfod. Gyda chaniatâd yr apelydd:-

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr ohebiaeth ychwanegol fel rhan o gyflwyniad yr Awdurdod, ac y byddai'r cyfarfod yn cael ei ohirio er mwyn rhoi'r cyfle i bob parti ddarllen yr ohebiaeth.**

(NODER: gohiriwyd y cyfarfod gan y Pwyllgor am 12.40pm am ginio ac fe'i ailymgynullwyd am 1.15pm)

Aeth y Pwyllgor yn ei flaen i wrando ar dystiolaeth gan y Rheolwr Comisiynu, yr apelydd a'i chynrychiolydd.

Cafodd y ddwy ochr gyfle i groesholi ynghylch y dystiolaeth a roddwyd ac i grynhoi. Ar ôl gwneud hynny, gadawodd y ddwy ochr y cyfarfod tra oedd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a'r sylwadau a gyflwynwyd.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, ynghyd â'r sylwadau a wnaed gan yr apelydd, ac ar ei rhan, a chan y Rheolwr Comisiynu:-

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r apêl a rhoi gwybod i'r apelydd, yn ysgrifenedig, am y dyfarniad llawn.**

## 6. COFNODION

________________________ __________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**